# GWEITHIO DROS GYMRU

Croeso i'm Hadroddiad y Prif Weinidog ar gyfer 2006 sy'n nodi'r hyn a gyflawnodd ein llywodraeth eleni a'n hymrwymiadau ar gyfer gweddill y tymor hwn o'r Cynulliad.

Rydym wedi canolbwyntio'n gyffredinol ar ddarparu mwy o swyddi a gwell swyddi ar gyfer pobl Cymru a'r sgiliau er mwyn eu cyflawni, ynghyd â gwella ein hiechyd fel cenedl a datblygu cymunedau cryfach a mwy diogel. Mae'r adroddiad hwn yn mesur yr hyn a gyflawnwyd i wneud gwahaniaeth yn y meysydd hanfodol hyn drwy fuddsoddi mwy, darpariaeth mwy effeithlon a newidiadau allweddol er mwyn gwella cyfleoedd gwaith a gostwng nifer y troseddau.

Bydd cyflawniadau mwyaf nodedig y flwyddyn yn cynnig manteision gwirioneddol a pharhaus i bobl Cymru.

**Mynediad cyflymach i driniaeth mewn ysbyty.** Yr addewid a wnaethom oedd lleihau'r amser aros hiraf ar gyfer cleifion allanol a chleifion mewnol i 12 mis, erbyn 31Mawrth 2006. Ar y dyddiad hwnnw yn 2005 roedd 824 o gleifion yn aros dros 12 mis am lawdriniaethau fel cleifion mewnol, ac roedd dros 13,800 yn aros am apwyntiad fel claf allanol. Ar 31Mawrth 2006, nid oedd unrhyw glaf yn aros mwy na 12 mis yn y naill gategori na'r llall yn unrhyw un o Ymddiriedolaethau Cymru. Wrth gwrs, nid yw'r mwyafrif helaeth o gleifion yn aros am 12 mis o bell ffordd. Mae tua hanner yr holl gleifion mewnol a'r cleifion allanol ar restrau am lai na thri mis. Mae tua 8 o bob 10 o bobl ar y rhestrau am lai na chwe mis. Mae'r amseroedd aros hyn hefyd wedi bod yn gostwng yn ystod y 12 mis diwethaf. Rwyf yn llongyfarch y meddygon, y nyrsys a'r staff cymorth hynny sy'n gweithio'n galed yng ngwasanaeth iechyd Cymru sydd wedi helpu i gyflawni'r llwyddiant hwn, ac edrychaf ymlaen at gyflwyno adroddiad ar ostyngiadau pellach mewn amseroedd aros, pan fydd yr uchafswm amser aros wedi cael ei ailosod ar wyth mis yn lle 12 mis ar gyfer y ddau fath o amser aros.

**Saith mlynedd arall o Gyllid Ewropeaidd.** Daeth cyfnod Llywyddiaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd â budd ychwanegol gwirioneddol i Gymru o, pan ddaeth y trafodaethau ar y cylch nesaf o gyllid Ewropeaidd ar gyfer y cyfnod 2007 - 2013 i ben. Bydd Cymru, ac yn arbennig y ddwy ran o dair o Gymru yn y Gorllewin a'r Cymoedd yn parhau i elwa ar y £1.3 biliwn o arian er mwyn parhau â'r gwaith o drawsnewid ein heconomi. Mae economi Cymru wedi gwneud yn well na'r DU gyfan yn ddiweddar gyda diweithdra'n disgyn o 7.7 y cant pan ddechreuodd y Cynulliad i 4.7 y cant erbyn hyn. Rydym am geisio lledaenu'r ffyniant hwnnw i bob rhan o Gymru ac mae gennym lwyfan sicr o arian Ewropeaidd bellach i'n helpu i gwblhau'r gwaith hwnnw.

**Rhaglen uno lwyddiannus.** Mae gwella darpariaeth gwasanaeth yn allweddol i'n datblygiad parhaus. Eleni, unwyd Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, ELWa ac ACCAC gyda'r is-adrannau sy'n eu noddi o fewn Llywodraeth y Cynulliad. Gallwn bellach weithio'n fwy effeithiol i ddarparu'r gwasanaethau

rydych am eu cael ac sydd eu hangen arnoch, a sicrhau atebolrwydd democrataidd symlach a chliriach.

Agorodd **Adeilad newydd ein Cynulliad** ar 1af Mawrth. Mae'r adeilad yn arloesol ym maes dylunio ac adeiladu cynaliadwy gan ddefnyddio systemau ynni adnewyddol i leihau'r costau cynnal hyd at eu hanner. Mae dros 100,000 o bobl wedi ymweld ag ef yn ystod y pedwar mis ers ei agor. Mae'r adeilad wedi ennill gwobr uchaf y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) am adeiladu cynaliadwy, Gwobr Cynaliadwyedd RICS Cymru 2006, a Gwobr Eiddo'r Variety Club am Ddatblygiad Mwyaf Neilltuol 2006. Mae wedi cael ymateb cadarnhaol ac ambell adolygiad hynod gamoliaethus gan benseiri ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Mae **Mesur Llywodraeth Cymru** yn mynd rhagddo'n llwyddiannus drwy'r camau yn y Senedd. Pan ddaw'n ddeddf, bydd yn gwella ein gallu i greu deddfwriaeth yng Nghymru i ddarparu gwell gwasanaethau yng Nghymru yn sylweddol.

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf yn syml: cyflawni gweddill yr ymrwymiadau a nodwyd gennym yn *Cymru: Gwlad Well*; a pharhau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'u datblygu a gwella'r modd rydym yn eu darparu.

## Y Ffordd Rydym yn Gweithio

Rydym yn arwain rhaglen fawr i sicrhau bod pobl yng Nghymru'n mwynhau'r safon uchaf posibl o wasanaeth cyhoeddus. Mae ein rhaglen arbennig *Creu'r Cysylltiadau* yn nodi amcanion uchelgeisiol ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwella perfformiad i sicrhau eu bod yn ymateb i anghenion dinasyddion a chymunedau. Mae'n ymwneud â defnydd mwy a mwy effeithlon o adnoddau i wella gallu gwasanaethau yn y rheng flaen. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i holl ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus Cymru gydweithio a gweithio gyda dinasyddion i sicrhau bod gwasanaethau yn cynnig y mynediad, yr amrywiaeth, yr integreiddio a'r arbenigedd angenrheidiol i ymateb i anghenion cyfnewidiol.

Daw'r adolygiad o wasanaethau lleol dan arweiniad Syr Jeremy Beecham i ben ym mis Gorffennaf a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymateb yn ddiweddarach yn y flwyddyn gyda chynigion ar gyfer gwell integreiddio a darpariaeth mewn llywodraeth leol, gofal cymdeithasol a gofal iechyd ac addysg.

Bydd cynnydd o ran y Cynllun Gofodol yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i helpu pob rhan o Gymru i ddatblygu dyfodol cynaliadwy, yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.

Mae Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn datblygu gallu pobl o bwys i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i'r safonau rhyngwladol uchaf.

Mae ein Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer 2005-08 yn nodi'r modd y bwriadwn gyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad Cenedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2005. Eleni, byddwn yn datblygu Cynlluniau Cydraddoldeb Rhyw ac Anabledd, ac yn ddiweddar cynhaliwyd Archwiliad Cydraddoldeb a gomisiynwyd yn allanol i ddarparu gwybodaeth gwaelodlin ar gyfer strategaeth prif-ffrydio cydraddoldeb gyffredinol. Diben y cynlluniau hyn fydd ein helpu i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n ystyried anghenion pob person a phob grŵp ledled Cymru.

Mae cynaliadwyedd yn ganolog i bopeth a wnawn. Mae gennym amrywiaeth o fesurau ar waith i sicrhau ein bod yn cyflawni canlyniadau hirdymor cynaliadwy. Caiff *Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol Cymru* ei ddatblygu i wella ein gallu i helpu i gyflawni Amcanion Datblygu'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer y Mileniwm. Bydd y Fframwaith yn ategu camau gweithredu Llywodraeth y DU ac yn annog gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwirfoddoli dramor, cysylltu cymunedau a masnach deg, ac yn gwella'r gwaith o drefnu ymateb Cymru i drychinebau rhyngwladol.

## Yn Nes at Bobl

Mae bod yn llywodraeth agored ac ymatebol yn rhan allweddol o ddwyn ein democratiaeth ddatganoledig newydd yn nes at etholwyr a dinasyddion Cymru. Er mwyn hysbysu pobl ledled Cymru gyfan o'r hyn rydym yn ei gyflawni, rydym wedi cynyddu nifer yr sioeau teithiol rydym yn eu cynnal ledled Cymru, ac o ganlyniad, ymwelwyd â 22 o ganol trefi a digwyddiadau lleol y llynedd.

Mae ein sesiynau hawl i holi yn rhoi cyfle i chi holi'r Cabinet cyfan yn uniongyrchol wyneb yn wyneb. Credwn fod hyn yn unigryw, o leiaf yn Ewrop. Cynhaliwyd pedair sesiwn eleni; yng Nghasnewydd, y Drenewydd, Bangor a Wrecsam. Rydym hefyd yn parhau i sicrhau bod cofnodion ein Cabinet ar gael ar y Rhyngrwyd o fewn 6 wythnos ar ôl cyfarfodydd y Cabinet fel y gallwch weld y penderfyniadau a wnawn a pham.

Rydym yn symud nifer sylweddol o swyddi gwasanaeth sifil Llywodraeth y Cynulliad i leoliadau y tu allan i Gaerdydd. Bydd ein swyddfa newydd ym Merthyr Tudful yn agor yn yr hydref a bydd ein swyddfeydd newydd yng Nghyffordd Llandudno ac Aberystwyth yn dilyn yn 2007 08. Drwy symud gwasanaethau allweddol Llywodraeth y Cynulliad y tu allan i'r brifddinas, rydym yn gwneud datganoli yn fwy real i bob rhan o Gymru.

Rydym wedi gwella ein gwefan eleni, ac mae'r nodweddion mynediad gwell yn golygu y gall mwy o bobl gael gwybod am ein cyflawniadau a'r gwasanaethau a gaiff eu cynnig gennym drwy'r Rhyngrwyd.

Mae'n bwysig i ni fod pobl Cymru yn cael cyfrannu at yr hyn a wnawn, felly rydym wedi bod yn gwneud ymdrech arbennig i'w gwneud yn haws i bawb ymgysylltu

â'n gwaith o wneud polisïau. Rydym hefyd yn parhau i gyflwyno fersiynau peilot o'n polisïau a'u profi er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r canlyniadau cynaliadwy y mae pobl am eu cael.

Rydym wedi datblygu dulliau a fforymau newydd i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â holl ddinasyddion a grwpiau Cymru;

- Mae ein *Fforwm Cymunedau Ffydd* yn cynnwys cynrychiolwyr o unarddeg o grwpiau ffydd ac yn hwyluso trafodaeth rhwng y cynulliad a'r prif gymunedau ffydd ar unrhyw bynciau perthnasol sy'n effeithio ar fywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Mae Cymru'n ffodus o gael amrywiaeth mor gyfoethog o ddiwylliannau a chrefyddau a diwylliant cryf o oddefgarwch a bwriadwn barhau i feithrin y goddefgarwch hwnnw.

- Nod grŵp *Muslim Women Talk Wales* yw annog menywod mwslimaidd i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol Cymru. Lansiwyd yr ymgyrch ym mis Tachwedd 2005 ac ers hynny mae wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd trafod agored ledled Cymru er mwyn i fenywod Mwslimaidd fynegi eu barn.

- Rydym hefyd yn canolbwyntio ar anghenion ein pobl ifancach. Nod ein *Fforwm Ieuenctid Ethnig Lleiafrifol* yw helpu pobl ifanc o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru i ddatgan eu pryderon a mynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio fwyaf ar eu bywydau, a'u galluogi i gymryd rhan wirioneddol yn y broses o ddatblygu polisi.

Rydym yn falch yng Nghymru o allu cynnig math o Lywodraeth ar gyfer gwlad fach sy'n annog ymgysylltiad gweithgar - rydym yn agos at y bobl a gaiff eu gwasanaethu gennym a'n nod yw creu cymdeithas lle nad oes rhwystrau 'ni a nhw'.

Yn ogystal â'r adroddiad hwn, rydym yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol mwy penodol ar ein hymrwymiadau allweddol i Ddatblygu Cynaliadwy, Cyfiawnder Cymdeithasol, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg.

## Gwneud Gwahaniaeth

Yn *Cymru: Gwlad Well*, amlinellwyd ein rhaglenni blaenllaw fel ein deg prif ymrwymiad. Dyma'r pethau oedd yn allweddol, yn ein barn ni, i sicrhau ein bod yn cyflwyno iechyd, swyddi a chyfiawnder cymdeithasol yn seiliedig ar anghenion dinasyddion a chymunedau ac yn adlewyrchu ein gwerthoedd o ran cydraddoldeb a chynaliadwyedd. Drwy sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymiadau hyn rydym yn darparu gwasanaethau cyffredinol allweddol y credwn y byddant yn gwneud gwahaniaeth parhaus i fywydau'r bobl fwyaf anghenus yng Nghymru.

| Ymrwymiad | Cynnydd |
|---|---|
| Gwnaethom addewid y buasem yn darparu presgripsiynau am ddim | Rydym ar y trywydd cywir. Cafodd presgripsiynau eu gostwng i ddim ond £3 ym mis Ebrill, ac rydym ar y trywydd cywir i ddarparu presgripsiynau am ddim i bawb erbyn 2007. |
| Gwnaethom addewid i neilltuo £100 miliwn i greu Cronfa Ymladd Troseddau | Mae hyn yn ei le. Dyranwyd cyllideb o dros £124 miliwn ar gyfer y cyfnod y mae'r weinyddiaeth hon yn gosod cyllidebau ar ei gyfer (h.y. 2004-05- 2007-08). Mae'r gwaith a gaiff ei gynnal fel rhan o'r gronfa hon yn cynnwys *Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan*, *Fframwaith Camddefnyddio Sylweddau* a *Strategaeth Cam-drin yn y Cartref Cymru Gyfan.* |
| Gwnaethom addewid i ymestyn y rhaglen teithiau bws am ddim ar gyfer pobl dros 60 oed a phobl anabl a datblygu cynllun ar gyfer teithiau bws am hanner pris ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed | Lansiwyd cynlluniau peilot teithiau hanner-pris ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed ar fysiau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Cynhelir y cynlluniau peilot o 1 Ebrill 2006 tan 31Mawrth 2008.<br><br>Mae pawb sydd dros 60 oed a phobl anabl eisoes yn gallu mwynhau teithiau bws am ddim, ac rydym wedi ymestyn hyn i gynnwys deg o gynlluniau cludiant cymunedol.<br><br>Rydym wedi dyrannu £3 miliwn dros dair blynedd i gefnogi 15 o gynlluniau arddangos sy'n profi'r ffordd orau o gynnig teithio am ddim i bobl sy'n ddifrifol anabl ar drafnidiaeth gyhoeddus. |
| Gwnaethom addewid i ddileu Ffioedd Atodol mewn prifysgolion yng Nghymru yn ystod y tymor hwn yn oes y Cynulliad | Yn unol â'n hymrwymiad, ni chaiff ffioedd amrywiadwy eu cyflwyno yng Nghymru yn ystod y tymor cyfredol yn oes y Cynulliad. |
| Gwnaethom addewid i ddarparu'r arian i bob plentyn ysgol gynradd gael brecwast am ddim | Cyflwynwyd Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd ym mis Medi 2004 mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Ers hynny, mae hyn wedi cael ei ymestyn i bob ardal gyda dros 270 o ysgolion yn cymryd rhan yn y cynllun ac mae cyfanswm o dros 400 bellach wedi cytuno i gymryd rhan. Mae'r ffigur hwn yn codi'n gyson. |

| Ymrwymiad | Cynnydd |
|---|---|
| Gwnaethom addewid i sefydlu Banc Gwybodaeth ar gyfer busnesau twf uchel | Lansiwyd y *Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau* (KB4B) ar 27[a] Medi 2005. Bellach mae tîm y Banc Gwybodaeth yn ymgysylltu â grŵp o tua 80 o ddarpar gleientiaid a chleientiaid pendant yn ystod ei flwyddyn fraenaru. |
| Gwnaethom addewid i ymestyn y cynlluniau 20 mya a llwybrau diogel i'r ysgol | Bellach cyflwynwyd 221 o barthau 20 mya (52 ohonynt yn rhai ymgynghorol) ledled Cymru ac mae 108 o brosiectau llwybrau diogel i'r ysgol ar waith. |
| Gwnaethom addewid i gyflwyno cynlluniau nofio am ddim i bobl hŷn | Rydym wedi buddsoddi bron £10 miliwn ar gyfer darparu cynlluniau nofio am ddim mewn pyllau awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc a phobl hŷn 60 oed a throsodd. Nofio am ddim yw ein menter ymyrraeth iechyd fwyaf a'r fenter genedlaethol gyntaf o'i math yn Ewrop. |
| Gwnaethom addewid i ddileu taliadau gofal cartref i bobl anabl | Ar 15 Chwefror 2006 cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nad oedd yn bosibl gweithredu'r ymrwymiad hwn o ran tegwch na fforddiadwyedd. Mae'r Gweinidog yn hytrach, wedi cynnig pecyn gwerth £76 miliwn i gynorthwyo pobl hŷn, pobl anabl a'u gofalwyr gan gynnwys pobl sydd â chlefyd Alzheimer's a'u teuluoedd nad oeddynt wedi eu cynnwys yn yr addewid gwreiddiol. Defnyddir yr arian hwn i wella gwasanaethau, gan gynnwys buddsoddiad sylweddol i helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain, a rhyddhad estynedig rhag talu am ofal personol gartref. |
| Gwnaethom addewid i fuddsoddi £560 miliwn mewn adeiladau ysgolion | Rydym wedi buddsoddi dros £100 miliwn y flwyddyn mewn adeiladau ysgolion er 2002 ac o 2005-06 ymlaen, mae hyn wedi codi i £143 miliwn y flwyddyn gan wneud cyfanswm buddsoddiad o fwy na £600 miliwn. |
| Gwnaethom addewid i fuddsoddi £550 miliwn mewn cyfleusterau iechyd | Bydd gwariant ar ofal iechyd yn ystod pedair blynedd y Cynulliad hwn yn fwy na £710 miliwn. Yn 2004-05 gwariwyd £100.5 miliwn a £140.3 miliwn yn 2005-06. Bydd cyfanswm y gwariant a ymrwymwyd ac a gadarnhawyd yn 2006-07 yn £219.2 miliwn ac yn £253.8 miliwn yn 2007-08. Mae hyn yn rhagori ar yr ymrwymiad i wario £550 miliwn ar ysbytai a meddygfeydd meddygon teulu. |

**Cymru yn y Byd**

Rydym yn parhau i godi proffil Cymru yn rhyngwladol er mwyn sicrhau y caiff ei chydnabod fel Cenedl Ryngwladol a fydd yn gallu elwa ar yr holl fanteision economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n gysylltiedig â hynny.

Mae ein hagenda uno'r cwangos wedi ein galluogi i gydlynu pob maes gwaith a gynhelir gennym dramor yn well. Lansiwyd strategaeth frandio newydd gennym yn ddiweddar i helpu i godi proffil Cymru dramor, ac i ddwyn ynghyd ein gwaith marchnata ym maes twristiaeth a buddsoddiad rhyngwladol.

Rydym yn cynyddu ein gallu i allforio. Rydym wedi cynnal nifer o Ymweliadau Masnach o bwys â marchnadoedd byd-eang allweddol megis China, UDA, Canada, yr Ariannin, y Dwyrain Canol ac amrywiaeth o gyrchfannau Ewropeaidd, sydd wedi bod o help i godi ein proffil ac sydd wedi arwain at gynnydd mewn masnach ryngwladol gyda'r gwledydd dan sylw ar gyfer busnesau o Gymru. Rydym yn gweld twf parhaus mewn lefelau allforio. Gwelwyd cynnydd o £237 miliwn yng ngwerth allforion yng Nghymru ar gyfer y pedwar chwarter yn 2005.

Ym mis Ionawr, am y tro cyntaf, cafodd Cymru'r fraint o gynnal digwyddiad blynyddol *Diwrnod Cofio'r Holocost* y DU yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Ym mis Gorffennaf 2005, cofnodwyd 60 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd gyda digwyddiad mawr, “Cymru'n Cofio 1939-1945”.

Rydym hefyd yn cynyddu ein presenoldeb ar y llwyfan rhyngwladol drwy gynnal rhai o'r digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon pwysicaf yn y byd. Rhoesom gefnogaeth i Ŵyl y Faenol, ail gystadleuaeth Artes Mundi, Ras Feicio Cwpan y Byd i Fenywod 2005, Cwpan yr FA a Gêm Derfynol Cwpan Heineken.

Nid oes amheuaeth bod llwyddiant tîm rygbi Cymru yn ennill y Gamp Lawn yn 2005 wedi cael effaith fawr ar bawb yng Nghymru. Yn 2007, bydd Cymru yn chwarae rhan bwysig yng Nghwpan Rygbi'r Byd a gaiff ei chynnal yn bennaf yn Ffrainc, gyda dwy o gemau grŵp Cymru ac un o gemau'r wyth olaf yn cael eu chwarae yn Stadiwm y Mileniwm. Rydym yn parhau â'r trefniadau ar gyfer cynnal Cwpan Ryder yma yn 2010, ac rydym yn defnyddio’r sylw a gawn yn y digwyddiadau hyn fel llwyfan i wella delwedd Cymru dramor a chynyddu nifer y twristiaid i'r ardal drwy arddangos rhai o nodweddion unigryw Cymru. Mae pob un ohonynt yn helpu i roi diwedd ar y modd y cyfeirir at Gymru fel 'cyfrinach orau Ewrop'.

Rydym hefyd wedi sefydlu tîm i ddatblygu'r paratoadau yng Nghymru ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain yn 2012, a byddwn yn ymdrechu'n galetach yn ystod y blynyddoedd nesaf i sicrhau y gallwn fanteisio'n llawn ar y buddiannau posibl y gall hyn yn eu cynnig i Gymru.

Eleni eto, cynaliasom *Wythnos Cymru yn Efrog Newydd*, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o Gymru a phopeth Cymreig, gan gynnwys lansio Llyfrgell Cymru sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Eleni hefyd, roeddem yn Hong Kong, a chynhaliwyd wythnos gyfan o ddathliadau "*Dyma Gymru"*. Cafodd ymwelwyr â'r arddangosfa gyfle i flasu bwydydd o Gymru megis Caws y Fenni a Bara Brith, a chael gwybod mwy am ein hanes, ein diwylliant a'n daearyddiaeth drwy sgriniau cyffwrdd rhyngweithiol. Cynaliasom hefyd ein Derbyniad Dydd Gŵyl Dewi blynyddol ym Mrwsel ar gyfer gwneuthurwyr penderfyniadau a ffurfwyr barn allweddol yr UE.

Parhawyd i ddatblygu ein cysylltiadau â gwledydd a rhanbarthau eraill o dramor a llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chongqing, un o'r rhanbarthau yn China sy'n datblygu gyflymaf, gyda phoblogaeth o tua 31 miliwn.

Codwyd proffil Cymru hyd yn oed yn uwch yn ystod ail hanner y flwyddyn pan fu'r DU yn llywyddu'r UE. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd Llywyddol o bwys yng Nghymru, gan roi cyfle i ni arddangos Cymru i Weinidogion, Comisiynwyr, cynrychiolwyr a newyddiadurwyr dylanwadol o bob rhan o Ewrop. Cynhaliwyd dau gyfarfod uchel eu proffil o Gyngor yr UE yma yng Nghymru - sef y Cyngor Cystadleurwydd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a chyfarfod y Gweinidogion Tramor (sef y "Gymnich") yng Ngwesty'r Celtic Manor yng Nghasnewydd - yn ogystal â nifer o gynadleddau lefel uchel eraill â chysylltiadau â'r Llywyddiaeth.

Ym mis Tachwedd 2005, dechreuodd Cymru ar ei Llywyddiaeth o'r Rhanbarthau sydd â Phwerau Deddfu - sef sefydliad sy'n cynnwys dros 70 o ranbarthau ledled yr UE gan gynnwys llawer o'n partneriaid strategol megis Catalwnia, yr Alban a Baden-Wurttemberg. Ym mis Tachwedd eleni, fel rhan o'n Llywyddiaeth, byddwn yn cynnal Cynhadledd bwysig o Lywyddion a Phrif Weinidogion aelod-ranbarthau.

## *Mwy o Swyddi Gwell a Gwell Sgiliau*

### Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

Ein Cyflawniadau

Mae diweithdra i lawr o 7.7 y cant i 4.7 y cant ac mae cyfanswm cyflogaeth i fyny 115,000 ers datganoli. Mae nifer y rhai sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra i lawr 30 y cant. Mae bron 104,000 o bobl wedi cael eu helpu i gael gwaith drwy raglenni'r Fargen Newydd ers iddynt ddechrau - gan gynnwys 42,900 o bobl ifanc.

Dengys y ffigurau diweddaraf (2004) bod incwm aelwydydd crynswth i'w wario wedi tyfu 25.6 y cant yng Nghymru ers datganoli yn 1999. Mae hynny'n gyflymach nag ar gyfer y DU gyfan, sef 23 y cant. Yn wir, dim ond yn Rhanbarth Dwyrain Lloegr y gwelwyd twf GDHI cyflymach er 1999. Mae Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario y pen yng Nghymru, o'i gymharu â gweddill y DU bellach ar ei lefel uchaf er 1996.

Ymrwymwyd £310 miliwn o Raglenni Cronfeydd Strwythurol i 429 o brosiectau yn ystod 2005 yn unig. Er y flwyddyn 2000, cafwyd gwariant o £1.46 biliwn o Gronfeydd Strwythurol mewn 2,655 o brosiectau gyda chyfanswm gwerth buddsoddiad o £3.5 biliwn. Gellir cysylltu'r gwaith o greu a diogelu dros 122,900 o swyddi â phrosiectau a dderbyniodd arian cyfatebol gan y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol.

Ehangodd allbwn y sector preifat ym mis Medi 2005 am y 30ain mis yn olynol.

Er 1999, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud 1,179 o gynigion Cymorth Rhanbarthol Dewisol, gwerth cyfanswm o £656 miliwn er mwyn helpu busnesau yng Nghymru i fuddsoddi cyfanswm o £2.8 biliwn i greu neu ddiogelu dros 70,000 o swyddi.

Ers ei lansio ym mis Ebrill 2002, rydym wedi cynnig dros 1,500 o Grantiau Buddsoddi'r Cynulliad sy'n werth £46 miliwn i gwmnïau bach a chanolig eu maint o Gymru i fuddsoddi dros £147 miliwn mewn prosiectau y disgwylir iddynt greu bron i 4,000 o swyddi.

Mae cymunedau yn dibynnu ar system drafnidiaeth leol dda i alluogi pobl i gynnal bywydau gweithgar. Mae awdurdodau lleol wedi cyhoeddi dros 530,000 o basys bysiau am ddim i bobl hŷn a phobl anabl sy'n byw yng Nghymru. Rydym yn ariannu cynlluniau peilot i gynnig tocynnau hanner pris i bobl ifanc 16 i 18 oed ar fysiau sy'n gweithredu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a Gogledd-ddwyrain Cymru. Rydym hefyd yn buddsoddi £1 miliwn i ddarparu teithiau am ddim i bobl yng Nghymru sydd ag anableddau difrifol.

Mae ein seilwaith trafnidiaeth yn hanfodol i sicrhau y gallwn ddatblygu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) newydd yn golygu bod gennym fwy o reolaeth nag erioed o'r blaen dros y modd y caiff ein strwythur trafnidiaeth ei sefydlu a'i gynnal. Mae gennym raglen ar gyfer gwella cefnffyrdd a fydd yn helpu i gynnal cysylltiadau ffordd allweddol, ac rydym wedi buddsoddi symiau sylweddol i wella rhwydweithiau ffyrdd lleol.

Yn gyfochrog â'r gwariant hwn ar y ffyrdd, rydym hefyd wedi buddsoddi £125 miliwn mewn grantiau trafnidiaeth lleol eleni. Mae hyn yn cynnwys £24 miliwn i gynnal cynlluniau trafnidiaeth integredig. Mae'r buddsoddiad yn cynnwys dros £9 miliwn ar gyfer cam buddsoddi nesaf rhaglen gwella rheilffyrdd strategol De-ddwyrain Cymru sy'n werth £36 miliwn ac rydym wedi ailagor gwasanaethau allweddol i deithwyr ar reilffordd Bro Morgannwg, dros 40 mlynedd ar ôl iddi gael ei chau yn sgil toriadau Beeching, a disgwyliwn ailagor cynllun rheilffordd Glynebwy yn ystod hanner cyntaf 2007.

Rydym am i bobl deimlo'n ddiogel ar ein ffyrdd, ac rydym wedi buddsoddi £7 miliwn arall i annog pobl i gerdded a beicio gydag arian ychwanegol ar gyfer y fenter lwyddiannus *Llwybrau Diogel i'r Ysgol*. Bellach cyflwynwyd 221 o barthau 20 mya ledled Cymru ac mae 108 o brosiectau llwybrau diogel i'r ysgol ar waith. Rydym hefyd yn annog mwy o bobl i gerdded a beicio yn rheolaidd fel dewis amgen diogel i ddefnyddio'r car ac rydym wedi lansio 20 o gynlluniau Cerdded a Beicio, a phump o gynlluniau seilwaith beicio.

Mae'r diwydiant twristiaeth yn rhan hanfodol o Economi Cymru ac ymddengys ei fod yn dal i dyfu. Cynyddodd nifer yr ymwelwyr a arhosodd yng Nghymru yn 2005 i tua 12.25 miliwn o ymweliadau, gyda gwariant o dros £2 biliwn. Rydym am barhau i annog ymwelwyr i Gymru drwy hybu ansawdd yr hyn a gynigiwn a chodi ymwybyddiaeth o Gymru drwy ein hymgyrchoedd marchnata ac adeiladu ar y proffil a gynhyrchir drwy gynnal digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon allweddol yma.

<u>Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau yn *Cymru: Gwlad Well*</u>

| **Ymrwymiad** | **Cynnydd** |
|---|---|
| Datblygu ymhellach yr economi wybodaeth drwy gysylltiadau cryfach rhwng AB ac AU a busnesau | Rydym wedi parhau i godi proffil arbenigedd mewn sefydliadau a chefnogi masnachedd a'r defnydd o IPR (Hawliau Eiddo Deallusol) drwy weithgareddau megis:<br>• ymweliadau masnach tramor a chysylltiadau cynyddol â China ac India;<br>• mentrau'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth (KEF).<br><br>Mae GO Wales (Cyfleoedd i Raddedigion Cymru) yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau y profwyd eu bod o gymorth i fyfyrwyr, graddedigion a busnesau yng Nghymru. Mae wedi dechrau ar Gam II |

| **Ymrwymiad** | **Cynnydd** |
|---|---|
| | (gydag arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop) gyda'r pwyslais ar gyflwyno'r hyn sydd gan AU i'w gynnig at sylw'r gymuned fusnes. |
| Ysgoloriaethau entrepreneuriaeth i bobl ifanc | Mae'r gefnogaeth ar gyfer entrepreneuriaid ifanc sydd am sefydlu busnes wedi cynnwys:<br>• 151 o Ysgoloriaethau Entrepreneuriaeth KEF;<br>• Mae 222 o bobl o dan 30 oed wedi cael cyngor a gwybodaeth gan *Flas ar Fentro*, gan arwain at 55 o fusnesau newydd a 63 o swyddi;<br>• 236 o achosion o gymorth, 420 o achosion o gymorth rhannol, 28 achos o fusnesau newydd drwy elfen pobl ifanc prosiect Potentia;<br>• Graddio i Fentro - rhoddwyd cymorth i 165 o unigolion a 26 o fusnesau, dechreuwyd 138 o fentrau newydd a chrëwyd 149 o swyddi newydd. |
| £25 miliwn o grant menter syml | Cyflawnwyd hyn. Lansiwyd grant syml newydd "SmartCYMRU" ym mis Medi 2003. |
| Darparu mynediad band eang i 67,000 o fusnesau ychwanegol | Cyflawnwyd hyn. Ers lansio'r rhaglen, mae cyrhaeddiad band eang wedi tyfu'n sylweddol. Mae Arsyllfa Band Eang Cymru yn amcangyfrif bod argaeledd wedi cynyddu 63 y cant. Mae 171,065 o fusnesau yn weithredol yng Nghymru, felly mae'r twf hwn yn cynrychioli cynnydd o 107,771 o fusnesau sydd â mynediad. |
| Symleiddio'r cymorth i fusnesau | Cyflawnwyd hyn. Lansiwyd Llygad Busnes ym mis Medi 2003. |
| Buddsoddi yn y Seilwaith Trafnidiaeth | Agorwyd cynllun gwella'r A477 Nash Fingerpost i Bangeston ym mis Tachwedd. Dechreuodd cynllun adeiladu'r A479 Talgarth/Bronllys ym mis Mawrth 2006. Dyfarnwyd y contract ar gyfer cynllunio Rheilffordd Glyn Ebwy a gwaith ar y prif safle ym mis Tachwedd 2005.<br><br>Dylai'r gwaith o adeiladu Ffordd Liniaru Porth/Rhondda Fach Isaf gael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2006, sy'n gyfanswm buddsoddiad o tua £87 miliwn.<br><br>Bydd y gwaith ar Gam 1 Ffordd Gyswllt Ceredigion yn dechrau cyn bo hir. Cwblhawyd y gwaith adeiladu ar Port Talbot 1c ddiwedd mis Hydref 2005. Dechreuodd y gwaith adeiladu ar Port Talbot 1b yn fuan wedyn. |

| Ymrwymiad | Cynnydd |
|---|---|
| | Ailagorwyd Llinell Reilffordd Bro Morgannwg yn swyddogol i deithwyr ar 10 Mehefin 2005. |
| Cefnogaeth i fusnesau ar lawr gwlad | Cyhoeddwyd y *Strategaeth Mentrau Cymdeithasol* ym mis Mehefin 2005 ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer ffyniant a datblygiad mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Ymysg ei amcanion mae:<br>• gweithio i sicrhau cyfle cyfartal fel y gall mentrau cymdeithasol gystadlu'n effeithiol gyda busnesau prif-ffrwd;<br>• cydnabod bod gan fentrau cymdeithasol anghenion penodol ac ystyried hyn wrth ddatblygu polisi yn y meysydd perthnasol;<br>• sicrhau bod cyngor a chymorth amserol a phriodol ar gael i'r rhai sydd am sefydlu menter gymdeithasol. |

Ein Cynlluniau

Bydd ein Strategaeth Datblygu Economaidd newydd *Cymru: Economi yn Ffynnu* yn ystyried y sialensau sy'n ein hwynebu ac yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer economi ffyniannus yng Nghymru sy'n darparu twf economaidd cryf a chynaliadwy drwy gynnig cyfleoedd i bawb.

Rydym ar fin dechrau ar gylch newydd gwerth £1.3 biliwn o gyllid Ewropeaidd ar 1 Ioanwr 2007 gydag Amcan Un bellach yn cael ei galw'n Gronfa Cydgyfeirio. Bydd y gyfres newydd o raglenni gweithredol ar gyfer y cyfnod 2007-13 yn seiliedig ar nifer llai o fframweithiau strategol eang, sy'n bodloni amcanion yr UE o ran twf a swyddi, gan ychwanegu gwerth i'n polisïau a'n strategaethau ar yr un pryd. Bydd hyn yn gysylltiedig â'r pwyslais cynyddol ar ganlyniadau.

Caiff ein Strategaeth Drafnidiaeth ddrafft *Cysylltu Cymru* ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori arni cyn bo hir. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a Chonsortia Trafnidiaeth Rhanbarthol i lunio cynlluniau a fydd yn cydlynu camau gweithredu lleol ar drafnidiaeth.

Bydd gwasanaethau teithwyr allweddol yn ailagor ar reilffordd Glyn Ebwy yn 2007, a chaiff gwasanaeth awyr newydd ei lansio o Gaerdydd i faes awyr yr Awyrlu yn y Fali ar Ynys Môn gan ei gwneud yn haws teithio rhwng y Gogledd a’r De.

Bydd ein strategaeth dwristiaeth newydd *Cyflawni ein Potensial* yn ein helpu i barhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod twristiaeth yn agwedd allweddol ar ein heconomi. Rydym am barhau i annog ymwelwyr i ddod iGymru drwy hybu ein nodweddion gorau a chodi canfyddiadau ac ymwybyddiaeth o Gymru drwy ein

hymgyrchoedd marchnata ac adeiladu ar yr enwogrwydd a gaiff ei gynhyrchu wrth inni gynnal digwyddiadau celfyddydol a chwaraeon allweddol.

---

## Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Ein Cyflawniadau

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran sicrhau bod adeiladau ysgolion yn cyrraedd safonau modern drwy ddarparu £630 miliwn ar gyfer dros 1400 o brosiectau ledled Cymru dros y tair blynedd diwethaf i sicrhau y gall ein plant ddysgu mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer yr 21$^{ain}$ ganrif.

Mae bellach dros 1,700 yn fwy o athrawon yng Nghymru nag yn 1998 sydd wedi cyfrannu at ein gallu i gyrraedd y targed o leihau dosbarthiadau iau i 30 neu lai. Yn ogystal, y llynedd cafodd 1,200 o staff cymorth ysgol newydd eu recriwtio er mwyn galluogi athrawon i ganolbwyntio hyd yn oed fwy o'u hamser ar ddysgu.

Dechreuodd ail gam ein cynllun peilot ar gyfer Cyfnod Sylfaen newydd o addysg ar gyfer plant 3 - 7 oed ym mis Medi, a bwriadwn ei ymestyn ledled Cymru o 2008. Er mis Medi 2004, bu lle blynyddoedd cynnar hanner amser o leiaf ar gael i bob plentyn teirblwydd oed os yw'r rhieniam ei ddefnyddio. Rydym wedi agor 16 o Ganolfannau Plant Integredig a bwriedir agor 15 canolfan arall yn ystod y pedwar mis nesaf.

Caiff cyfleoedd addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed eu trawsnewid drwy ddatblygu *Llwybrau Dysgu* mewn cydweithrediad â'r bobl ifanc eu hunain. Bydd gan ddysgwyr unigol lawer mwy o ddewis ac amrywiaeth o gyrsiau a fydd wedi eu teilwra ar gyfer eu hanghenion hwy. Rydym eisoes wrthi'n cyflwyno system gymwysterau ehangach ei seiliau ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed, gan gynnwys Bagloriaeth Cymru.

Mae canlyniadau ein hysgolion yn gwella. Cyflawnodd 74 y cant o ddisgyblion 11 oed y lefelau disgwyliedig ar gyfer y pynciau craidd cyfun, ffigur sydd wedi cynnyddu'n flynyddol er 1999, gan gynnwys cynnydd o ddau y cant yn ychwanegol yn y flwyddyn ddiwethaf gan roi cyfanswm o 13 y cant o gynnydd er 1999. Cyflawnodd 52 y cant o ddisgyblion 15 oed bump neu fwy o gymwysterau TGAU graddau A* i C, sydd bedwar y cant yn uwch nag ym 1999 ac un y cant yn uwch ers y llynedd.

Mynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu ein cymunedau mwyaf difreintiedig yw un o'n sialensau mwyaf. Rydym yn darparu cyllid allweddol i wella cymorth i ddisgyblion ar gyfer Cymunedau Teithiol, Ceiswyr Lloches a phobl o Grwpiau Ethnig Lleiafrifol er mwyn sicrhau na chaiff y plant hyn eu hamddifadu o'r addysg y mae ganddynt hawl iddi.

Mae rhaglenni peilot Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd wedi cael eu

cynnal mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf er mis Medi 2004. Caiff pob ysgol gynradd gynnig y cyfle i gymryd rhan erbyn mis Ionawr 2007.

Rydym wedi lansio rhaglen fawr newydd gwerth £16 miliwn o'r enw RAISE (Codi Cyrhaeddiad a Safonau Unigol mewn Addysg yng Nghymru), a fydd yn targedu tangyrhaeddiad addysgol yn arbennig ymysg disgyblion difreintiedig. Bydd y rhaglen o fudd i dros 600 o ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig yng Nghymru.

Rydym hefyd yn helpu teuluoedd i dalu costau gwisg ysgol drwy roi grant o £85 i ddisgyblion cymwys sydd ar fin dechrau ym Mlwyddyn 7.

Mae ehangu mynediad mewn addysg uwch yn un o'r blaenoriaethau allweddol ac rydym wedi buddsoddi £2 filiwn bob blwyddyn i annog myfyrwyr a gaiff eu tangynrychioli i ystyried addysg uwch a chynorthwyo eu dysgu yn ystod eu cyfnod addysg uwch. Caiff hyn ei ganolbwyntio mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac mae'n cynnwys prosiectau i hyrwyddo addysg uwch i'r bobl hynny lle nad oes traddodiad o fynd i'r brifysgol o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau.

Byddwn yn bodloni'r ymrwymiad na fydd ffioedd atodol yn daladwy mewn Prifysgolion yng Nghymru yn ystod cyfnod Cynulliad 2003-07.

Rydym yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym maes addysg drwy hyfforddi 450 o ymarferwyr blynyddoedd cynnar ychwanegol a chynnal rhaglen beilot o'r Cyfnod Sylfaen sy'n cynnwys dwyieithrwydd a dealltwriaeth amlddiwylliannol fel un o'r saith maes dysgu.

Mae nifer y bobl sydd ar gyrsiau Prentisiaeth Fodern wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru; ac ym mis Gorffennaf 2005 roedd dros 14,500 ar y rhaglen sy'n gynnydd o dros 4,000 er 2002.

Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau yn *Cymru: Gwlad Well:*

| **Ymrwymiad** | **Cynnydd** |
|---|---|
| Cael yr ysgolion sy'n perfformio waethaf i wella i gyflawni cystal â pherfformiad cynyddol y rhai gorau | Lansiwyd adroddiad ar ail gam y prosiect *Cau'r Bwlch*, yn edrych ar ysgolion cynradd ar 17Tachwedd 2005. Edrychodd y prosiect ar ysgolion cynradd sy'n gwneud yn well na'r disgwyl mewn amgylchiadau heriol. Roedd yn nodi'r hyn oedd yn gweithio ar gyfer yr ysgolion hynny a'r modd y byddai'n bosibl lledaenu eu harfer da. Cynhaliwyd 6 Gweithdy rhwng mis Ionawr a Mawrth 2006 i rannu canfyddiadau'r adroddiad gydag ysgolion cynradd. |
| Cyfrif Dysgu Unigol i Gymru | Lansiwyd *Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru* (ILA) ym mis Gorffennaf 2003. Erbyn diwedd 2005-06 |

| Ymrwymiad | Cynnydd |
|---|---|
| | roedd dros 7,000 o gyfrifon dysgu unigol cofrestredig wedi eu darparu, gyda 60 ohonynt o grwpiau blaenoriaeth. |
| Ymestyn Bagloriaeth Cymru i lefelau canolradd a sylfaen | Mae rhaglen beilot Bagloriaeth Cymru wedi bod yn mynd rhagddi ar lefel Uwch a Chanolradd mewn darpariaeth ôl-16 mewn 18 o ysgolion a cholegau ers mis Medi 2003, dechreuodd 6 ychwanegol ym mis Medi 2004 a 7 arall ym mis Medi 2005. Bydd gwerthusiad allanol (disgwylir adroddiad yn ystod haf 2006) yn llywio penderfyniadau am gyflwyno Bagloriaeth Cymru mewn darpariaeth ôl-16, a gynlluniwyd ar gyfer mis Medi 2007. Mae CBAC yn datblygu Bagloriaeth lefel Sylfaen fel rhaglen beilot, yn gyfochrog â'r model Canolradd mewn darpariaeth cyn-16 ac ôl-16, o fis Medi 2006. |
| Diwygio'r cwricwlwm ystod oedran 14-19, gan ymestyn addysg yn yr ysgol i ddysgu gydol oes fel oedolyn | Ceir ymrwymiad sylweddol i'r *Llwybrau Dysgu*, gyda buddsoddiad o £8.5 miliwn yn 2006-7 a £32.5 miliwn yn 2007-8. Bydd chwe elfen allweddol o'r *Llwybrau Dysgu* yn sicrhau bod pob dysgwr 14-19 oed, dros amser, yn derbyn y cydbwysedd priodol o brofiadau dysgu sy'n gweddu orau iddynt hwy.<br><br>Mae'r gwaith o ddatblygu Partneriaethau Pobl Ifanc lleol a'r Rhwydweithiau 14-19 wedi caniatáu i gynnydd gwirioneddol gael ei wneud ac i barhau i gael ei wneud o ran cynllunio a newid darpariaeth gwasanaethau lleol a chreu cyfleoedd a dewisiadau ar yr un pryd i bobl ifanc sy'n ymateb i'r anghenion a fynegwyd yn lleol gan y bobl ifanc hynny. |
| Erbyn diwedd y ddegawd, ni fydd unrhyw ddisgyblion yn gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau | |
| Ysgolion i fod yn adnoddau cymunedol | Rydym wedi dyrannu cyfanswm cyllid o £7 miliwn o 2005-06 i 2007-08 ar gyfer datblygu ysgolion bro. |
| Cwricwlwm 3-7 oed newydd | Ym mis Medi 2008, byddwn yn cyflwyno Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3-7 oed, sef cwricwlwm newydd a fydd yn darparu'r amrywiaeth angenrheidiol o sgiliau bywyd a fydd hefyd yn sail i ddysgu a chyflogadwyedd yn y dyfodol. |
| Canolfannau integredig newydd a lleoedd meithrin ar gyfer pob plentyn 3 oed os yw'r rhieni am eu defnyddio | Ers mis Medi 2004, bu lle blynyddoedd cynnar hanner amser o leiaf ar gael i bob plentyn teirblwydd oed os yw'r rhieni am ei ddefnyddio.<br><br>Rydym wedi agor 16 o ganolfannau integredig a |

| Ymrwymiad | Cynnydd |
| --- | --- |
| | bwriedir agor 15 canolfan arall yn ystod y pedwar mis nesaf. Mae wyth arall ar y gweill erbyn diwedd Mawrth 2007. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Gronfa Loteri Fawr, sydd wedi sicrhau bod £11 miliwn ar gael tuag at gostau cyfalaf adeiladu'r canolfannau hyn. |
| Diwygio addysg blynyddoedd cynnar Gymraeg | Prosiectau peilot addysgu iaith drwy ymdrwytho ac addysgu dwys sy'n cynnwys disgyblion ym Mlwyddyn 3, yn ogystal â'r rhai ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6. Rydym hefyd wedi lansio *Cynllun Sabothol* iaith Gymraeg gwerth £1 miliwn ar gyfer athrawon ysgol (yn ogystal ag ymarferwyr AB a darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith). |
| Buddsoddi er mwyn mynd i'r afael âphroblemau ysgolion bach ac ysgolion gwledig | Rydym am sicrhau bod cyfanswm o £4.1 miliwn wedi ei glustnodi a fydd ar gael i ddarparu cymorth ychwanegol i ysgolion bach ac ysgolion gwledig yn 2006-07. Bwriad yr arian yw codi safonau ac annog ffyrdd arloesol o weithio, o ystyried yr heriau penodol sy'n gysylltiedig â darparu'r cwricwlwm cenedlaethol mewn ysgolion bach gydag ychydig o staff ac adnoddau eraill; ac i gynorthwyo ysgolion i ddarparu cyfleusterau ar gyfer y gymuned. Mae'r cyllid yn cydnabod y bydd yr angen am ysgolion bach mewn rhai ardaloedd gwledig yn parhau. |
| Cwtogi maint dosbarthiadau ysgolion iau | Rydym wedi gostwng maint dosbarthiadau babanod i uchafswm o 30 o ddisgyblion. Cyflawnwyd y targed o leihau dosbarthiadau iau i 30 neu lai hefyd fwy neu lai erbyn mis Medi 2004 (dim ond 0.2% o ddisgyblion iau sydd bellach mewn dosbarthiadau mwy na hynny, unwaith yr ystyriwyd eithriadau a ganiateir). Gall disgyblion ysgolion cynradd yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2 bellach gael budd o ddosbarthiadau llai. |
| Dileu'r bwlch mewn sgiliau sylfaenol | Rydym wedi cynyddu ein cyllid i'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn 2006-07 i dros £13 miliwn i gyllido'r gwaith o weithredu ein strategaeth *Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri*. Mae hyn yn helpu i wella ein safonau llythrennedd a rhifedd mewn sawl ffordd, gan gynnwys rhaglenni iaith a chwarae yn y blynyddoedd cynnar, dosbarthiadau dal i fyny mewn ysgolion ac ymagweddau arloesol ar gyfer oedolion sy'n |

| Ymrwymiad | Cynnydd |
|---|---|
| | ddysgwyr gan gynnwys Cynllun Addewid y Cyflogwyr. |
| Cyflwyno rhaglenni peilot o hyfforddiant sgiliau am ddim i oedolion hyd at lefel NVQ 3 | Cwblhawyd rhaglen beilot y *Prosiect Gweithwyr sy'n Dysgu* (LWP) ym mis Mawrth 2005. Mae canfyddiadau'r prosiect hwnnw wedi cael eu hymgorffori i'r rhaglen datblygu'r gweithlu newydd a gaiff ei chyflwyno drwy'r *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth*. |

Ein Cynlluniau

Mae *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Cyflawni'r Addewid* wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori a chaiff y fersiwn derfynol ei chyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Bydd ein strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd hanfodol addysg a sgiliau i bobl Cymru a'i heconomi. Ein nod yw cael sector addysg a all gystadlu'n rhyngwladol ac sy'n adnabyddus drwy'r byd, sy'n cynnal dyheadau dysgwyr yng Nghymru ac yn rhoi blaenoriaeth i'w hanghenion.

Mae ein menter arloesol *Dechrau'n Deg* yn cynnwys £46 miliwn o arian dros ddwy flynedd, yn cychwyn eleni ac mae'n cynnwys pecyn o fesurau i roi gwell dechrau mewn bywyd i blant o ardaloedd difreintiedig. Canolbwynt *Dechrau'n Deg* fydd gofal plant am ddim, yn rhan amser ac o safon uchel ar gyfer plant dwyflwydd oed, sy'n gam pwysig ymlaen o'n hymrwymiad presennol ar gyfer plant teirblwydd oed. Bydd y cynllun hwn hefyd yn sicrhau mwy o gefnogaeth gan ymwelwr iechyd a chymorth i rieni. Rydym hefyd yn gweithio drwy Cymorth, y Gronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc, i sicrhau cynnydd net o 3,000 o leoedd gofal plant cofrestredig dros y flwyddyn nesaf.

Dengys tystiolaeth gynyddol bod diet cytbwys iach yn bwysig o ran iechyd ein plant a'n pobl ifanc a hefyd o ran gwella eu perfformiad yn yr ysgol. Rydym yn ymrwymedig i barhau i wella maeth yn ein hysgolion. Byddwn yn ymestyn y Rhwydwaith o Ysgolion Iach i bob ysgol erbyn 2010, yn cynnig y cyfle i bob ysgol gymryd rhan yn y fenter brecwast am ddim erbyn mis Ionawr 2007, yn hyrwyddo pecynnau bwyd mwy maethlon, yn gwella safonau cinio ysgol ac yn darparu mwy o hyfforddiant ar gyfer arlwywyr ysgolion.

Rydym hefyd yn canolbwyntio ar wella'r sgiliau mwyaf sylfaenol, sef darllen, ysgrifennu a mathemateg. Rydym yn gweithio tuag at gyflawni ein targed o sicrhau bod o leiaf 80 y cant o oedolion o oedran gwaith yn meddu ar sgiliau llythrennedd lefel 1 o leiaf erbyn 2010, o'i gymharu â 75 y cant ym mis Ebrill 2005.

---

# *Gwella Iechyd*

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol

### Ein Cyflawniadau

Ein dechreubwynt o hyd o ran ein hagenda ar gyfer iechyd yw gwella iechyd, yn ogystal ag atal iechyd gwael, trin salwch a gostwng anghydraddoldebau iechyd. *Her Iechyd Cymru* sy'n llywio ein polisi gwella iechyd, ac rydym yn helpu unigolion a chymunedau i wella eu hiechyd drwy annog ffordd iach o fyw, bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol, gostwng anghydraddoldebau iechyd, yn arbennig o ran lleihau'r risg o glefyd y galon ledled Cymru sydd ar frig agenda'r gronfa anghydraddoldebau iechyd estynedig.

Yr achosion o E.coli yn Ne Cymru yn ystod hydref 2005 oedd yr her iechyd cyhoeddus fwyaf a wynebwyd ers i'r Cynulliad ddechrau. Mewn ymateb i hyn, cynhaliodd Prif Swyddog Meddygol Cymru adolygiad ar unwaith o'r systemau a'r prosesau a oedd ar waith cyn yr achosion ac wedi'r achosion a sefydlodd y Cynulliad ymchwiliad cyhoeddus o dan gadeiryddiaeth yr Athro Hugh Pennington. Mae'r ymchwiliad yn cynnal archwiliad trylwyr o'r hyn a achosodd y clefyd a'r ymateb iddo gyda'r bwriad o atgyfnerthu'r systemau sy'n diogelu iechyd pobl.

Mae MRSA yn fater sy'n amlwg iawn yn ymwybyddiaeth y cyhoedd. Fodd bynnag, dim ond 10% o gyfanswm yr heintiau yn y llif gwaed a ganfyddir yng Nghymru y gellir eu priodoli iddo. Er 28 Ebrill 2006 mae gwybodaeth am heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd wedi cael ei rhyddhau i'r cyhoedd ar wefan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (NPHS). Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod gan bob Ymddiriedolaeth GIG 'gefnogwr cleifion' a fydd yn gweithredu fel eiriolwr ar faterion sy'n ymwneud â glanhau, hylendid a rheoli heintiau.

*Cynllun Oes* yw ein dogfen strategaeth iechyd, sy'n cynnwys rhaglen ddiwygio radical er mwyn cyflwyno gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o'r radd flaenaf ar gyfer yr 21ain Ganrif yng Nghymru. Cynhaliwyd adolygiad o'r modd y mae ein prif ysbytai yn darparu gwasanaethau ym mhob un o dri rhanbarth y GIG yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad yn chwilio am atebion i'r cwestiynau sylfaenol am: dechnoleg gyfnewidiol gofal ysbytai; yr amrywiaeth cynyddol o wasanaethau y gellir eu darparu yn nes i gartref y claf, yn arbennig o ran rheoli cyflyrau cronig; y gostyngiad yng nghyfartaledd hyd yr arhosiad mewn wardiau ysbytai acíwt; cymdeithas sy'n heneiddio; a'r newidiadau yn y modd y mae meddygon ysbytai a llawfeddygon yn cynnal eu gwaith ac yn derbyn hyfforddiant.

Bydd newidiadau hirdymor y dyfodol yn adeiladu ar y gwelliannau sylweddol a sicrhawyd eisoes o ran mynediad i driniaeth mewn ysbytai yng Nghymru. Y llynedd, cyflwynais adroddiad ar y modd roedd amseroedd aros wedi gostwng

rhwng 2004 a 2005 - gan gynnwys gostyngiad o 99.6 y cant yn y rhai oedd yn aros dros 18 mis am apwyntiadau fel cleifion allanol. Cafwyd gostyngiadau anferth eraill mewn amseroedd aros dros y 12 mis diwethaf. Dengys y ffigurau ar gyfer mis Mawrth 2006 ostyngiad anferth dros y flwyddyn ddiwethaf yn nifer y bobl sy'n aros dros 12 mis i gael triniaeth. Ym mis Mawrth 2005, roedd 840 o bobl yn aros, a bellach nid oes neb. Yn yr un modd, ym mis Mawrth 2005, roedd 13,860 o bobl yn aros dros 12 mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol; a bellach dim ond 15 sy'n aros, ac mae pob un ohonynt yn gleifion sy'n byw yng Nghymru sy'n aros am apwyntiad gydag Ymddiriedolaeth yn Lloegr. Mae hyn yn gyflawniad ardderchog ar gyfer y GIG yng Nghymru.

Rydym wedi cynyddu nifer y staff meddygol hyfforddedig. Erbyn mis Medi 2005 roedd cynnydd o 4.7 y cant yn nifer y meddygon dan hyfforddiant mewn swydd. Golyga hyn bod 2,331 o'i gymharu â 2,226 yn y flwyddyn flaenorol. Yn 2005, roedd 3,672 o nyrsys yn hyfforddi yng Nghymru, o'i gymharu â 3,430 yn 2004.

Mae nifer y staff a gaiff eu cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru wedi cynyddu 2,270 rhwng 2004 a 2005. Rhwng 2004 a 2005 cynyddodd nifer y meddygon ymgynghorol bump y cant a nifer y staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd cymwysedig 572 i 20,698. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 53 y cant mewn meddygon a 24 y cant mewn nyrsys er 1997.

Crëwyd 206,000 o leoedd ychwanegol ym maes deintyddiaeth y GIG eleni yn sgil rhaglen beilot practisau'r *Gwasanaethau Deintyddol Personol*. Mae ein dyraniad cyllideb ar gyfer deintyddiaeth yn cynyddu o £88 miliwn y llynedd i £118 miliwn eleni. Caiff y £30 miliwn ychwanegol hwnnw ei fuddsoddi yn sgil cyflwyno contract deintyddol newydd y GIG ar 1 Ebrill 2006. Mae'n golygu rhai o'r newidiadau mwyaf i ddeintyddiaeth y GIG er 1948. Mae gwariant ar ddeintyddiaeth y GIG wedi cynyddu bron 90 y cant er 1999.

Gostyngodd taliadau presgripsiynau i £3 ar Ebrill 1af ac rydym ar y trywydd cywir i wireddu ein hymrwymiad i ddarparu presgripsiynau am ddim i bawb erbyn 2007.

Un o'n prif flaenoriaethau o hyd yw ymateb i anghenion ein plant, yn arbennig y rhai mwyaf diamddiffyn. Lansiwyd y *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth* ym mis Medi 2005. Roedd yn cynnwys offeryn hunan-asesu arloesol iawn y gall pob sefydliad ei ddefnyddio i fonitro a gwella perfformiad.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r cydweithio rhwng y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol wedi gwella. Mae'r ysbryd newydd hwn o gydweithio wedi gweld lefelau oedi mewn trosglwyddo gofal yn gostwng dros 12% ers y llynedd, sef y ffigurau isaf ers dechrau eu cofnodi.

Yn ystod y flwyddyn, oherwydd yr anawsterau ymarferol a oedd yn bodoli o ran gweithredu ein haddewid i ddileu'r costau ar gyfer gwasanaethau gofal cartref i bobl anabl, penderfynwyd bod angen diwygio'r polisi. Yn ei le, rydym wedi

cyflwyno pecyn gwerth £76 miliwn dros dair blynedd i gynorthwyo pobl hŷn, pobl anabl a'u gofalwyr, a fydd yn cynnwys mesurau i wella gwasanaethau a lleihau'r effaith o godi tâl amdanynt. Cyflwynir hyn ar ben cynnydd o £45 miliwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn 2006-07. Mae'r pecyn yn cynnwys cynnydd yn y swm uwchben cymhorthdal incwm cyn bod angen i bobl dalu am gymorth personol gartref, a £3 miliwn i ddarparu cymorth ychwanegol i ofalwyr pobl sy'n dioddef o salwch meddwl.

Ym mis Medi, lansiwyd cofnod ar ffurf llyfryn ar gyfer rhieni plant anabl o'r enw *Fy Llyfr Oren* sy'n helpu plant sydd ag anghenion iechyd cymhleth i gyfathrebu â gwahanol staff iechyd. Mae'n gofnod o anghenion a hoff bethau'r plentyn fel nad oes angen eu hailadrodd dro ar ôl tro wrth wahanol staff iechyd.

Cyhoeddwyd *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Oedolion* ym mis Hydref 2005, gydag adnoddau ychwanegol i helpu ei weithredu. Rydym hefyd yn parhau i adolygu'r gwasanaethau iechyd meddwl i blant (CAMHS) ac rydym yn hyderus bod cynnydd yn cael ei wneud ar wella'r holl wasanaethau o ofal cymunedol i ofal trydyddol hynod arbenigol.

Mae'r gwaith ar ein saith ysbyty cymunedol newydd yn mynd rhagddo'n dda.

- Agorwyd **Ysbyty Cymunedol Dinbych-y-Pysgod** ym mis Mawrth 2006
- Mae **Cyd-gyfleuster Gofal Iechyd a Chymdeithasol Trefynwy** (Cynllun Menter Cyllid Preifat) bellach wedi ei gwblhau ac yn y broses o gael ei drosglwyddo.
- Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu **Ysbyty Cymunedol Glynebwy** yn 2005-06, a dylid ei gwblhau yn 2008-09.
- Dechreuodd y gwaith ar **Ysbyty Cymunedol Rhondda** ym mis Medi 2005, a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Mai 2008.
- Bwriedir dechrau ar y gwaith o adeiladu **Ysbyty Cymunedol Cwm Cynon** yn 2007 er mwyn ei gwblhau erbyn 2009
- Bwriedir dechrau ar y gwaith o adeiladu **Ysbyty Cymunedol Treffynnon** yn 2006-07 ar er mwyn ei gwblhau yn ystod gwanwyn 2008.
- Cymeradwyodd y Bwrdd Buddsoddi Cyfalaf arian ychwanegol o £1.287 miliwn i Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru, gan ddod â chyfanswm y cyllid ar gyfer **Ysbyty Cymunedol Porthmadog** i £17.9 miliwn. Mae'r Ymddiriedolaeth bellach wedi symud ymlaen at gam nesaf y gwaith adeiladu.

<u>Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau yn *Cymru: Gwlad Well*:</u>

| **Ymrwymiad** | **Cynnydd** |
|---|---|
| 3,000 o nyrsys ychwanegol | Nifer y Staff GIG a gyflogwyd yn uniongyrchol a oedd mewn swydd ar 30 Medi 2005:<br>• 2,437 yn fwy o staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd cymwysedig nag ar 30 Medi 2003;<br>• 639 yn fwy o staff meddygol a deintyddol (gyda 234 ohonynt yn ymgynghorwyr meddygol mewn ysbytai) nag ar 30 Medi 2003. |
| 400 o Feddygon ychwanegol | |
| Cyswllt ag aelod priodol o'r tîm gofal sylfaenol o fewn 24 awr o wneud cais am apwyntiad ac yn llawer cyflymach mewn achos brys | Mewn 93 y cant o bractisau, bydd cleifion yn gweld aelod priodol o'r tîm gofal sylfaenol o fewn 24 awr. |
| Comisiynydd pobl hŷn | Yn bendant ar y trywydd cywir a dylem fod mewn sefyllfa i benodi'r comisiynydd yn 2007. |
| Dyfodol diogel i ysbytai ardal cyffredinol | Mae proses ymgynghori fawr wedi cael ei lansio sy'n ymwneud â chynigion i sicrhau bod gan Gymru yr ysbytai sydd eu hangen arni ar gyfer yr 21$^{ain}$ ganrif. |
| Cronfa Anghydraddoldebau Iechyd estynedig | Mae arian ar gyfer prosiectau sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn perthynas â chlefyd y galon ledled Cymru wedi cael ei ymestyn i fis Mawrth 2008. Caiff 62 o brosiectau ledled Cymru eu hariannu drwy *Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd* Llywodraeth Cynulliad Cymru, sydd â chyllideb flynyddol o £5.8 miliwn. Bydd yr estyniad hwn yn galluogi'r prosiect i barhau i ddatblygu gwasanaethau a chasglu mwy o wybodaeth am ganlyniadau. |
| Fformiwla ariannu Iechyd newydd | Cwblhawyd adroddiad terfynol y Pwyllgor Sefydlog a gadeiriodd yr Athro Peter Townsend yn 2005. Daeth ailadroddiad diweddaraf Arolwg Iechyd Cymru hefyd i law yn ystod yr un cyfnod. Yn unol ag Adroddiad cyntaf Townsend, rydym wedi comisiynu adolygiad o'r data diweddaraf, er mwyn sicrhau ei fod yn addas at ei ddiben. |

<u>Ein Cynlluniau</u>

Bwriad *Safonau Gofal Iechyd ar gyfer Cymru* yw hybu fframwaith o ofal sy'n seiliedig ar werthoedd cytûn y gellir eu mabwysiadu'n gyffredinol, gan sicrhau y

caiff gwasanaethau o safon uchel eu darparu'n gyfartal, yn gadarn ac yn foesegol ar draws yr ystod llawn o wasanaethau a gaiff eu darparu gan y GIG neu ar gyfer y GIG yng Nghymru, waeth beth fo'r lleoliad. Daeth y safonau gofal i rym ar 1af Mehefin 2005 a disgwylir i'r holl sefydliadau gofal iechyd sicrhau eu hunain a'r cymunedau a wasanaethir ganddynt eu bod yn bodloni'r safonau neu'n gweithio tuag atynt.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn addysg a hyfforddiant meddygol. Yn ystod y 12 mis nesaf, y bwriad yw y bydd dros 1,516 o fyfyrwyr meddygol a 305 o fyfyrwyr deintyddol yn cael eu hyfforddi yn ogystal â 282 o feddygon iau a 894 o gofrestrwyr arbenigol. Byddwn hefyd yn anelu at hyfforddi 1,250 o nyrsys newydd a 99 o fydwragedd newydd. Dylai hyn ddechrau gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd y caiff ein gwasanaethau iechyd allweddol eu darparu.

Erbyn mis Ebrill 2007, byddwn yn dilddymu'r holl daliadau presgripsiynau, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau cleifion.

Rydym am sicrhau bod ein plant yn mwynhau bywydau iach, cynhyrchiol. Byddwn yn parhau i gefnogi ein rhaglenni ysgolion iach er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig ffordd iach o fyw i'n plant bob amser, gan atgyfnerthu'r hyn sy'n diogelu plant i hybu eu lles a'u hamddiffyn rhag niwed. Byddwn hefyd yn ymateb i argymhellion adroddiad yr *Adolygiad o Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed*, o dan gadeiryddiaeth Gwenda Thomas AC.

Nid dim ond gofalu am anghenion ein plant a'n pobl ifanc a wnawn wrth gynllunio ar gyfer ein dyfodol. Gydag oedran y boblogaeth yn heneiddio, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ein pobl hŷn yn parhau i chwarae rhan weithgar yn ein cymdeithas. Y flwyddyn nesaf, y gobaith yw penodi Comisiynydd cyntaf y DU ar gyfer Pobl Hŷn. Yn yr un modd â'n Comisiynydd Plant arloesol, bydd y Comisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn yn sicrhau y caiff anghenion pobl hŷn eu hystyried o fewn ein holl waith, a bydd yn rhoi llais gwerthfawr i bobl hŷn yng Nghymru.

---

## *Cymunedau Cryfach a Diogelach*

### **Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

Ein Cyflawniadau

Rydym yn mynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy ein Cronfa Ymladd Troseddau o £124 miliwn. Mae'r gwaith a gaiff ei ddatblygu fel rhan o'r gronfa hon yn cynnwys ffocws ar droseddu ieuenctid, camddefnyddio sylweddau a cham-drin yn y cartref; a bydd pedair Ardal beilot Camau Gweithredu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn sefydlu arfer gorau o ran mynd i'r afael ag ymddygiad sy'n niwsans. Mae niferoedd yr heddlu ar eu lefel uchaf erioed, sef 7,575 (i fyny 983 er 1997) a chânt eu cefnogi gan 282 o Swyddogion Cymorth Cymunedol. Mae'r troseddau sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o bobl wedi gostwng 35 y cant er 1997 ac mae'r siawns y bydd pobl yn dioddef trosedd ar ei lefel isaf er 1981.

Rydym wedi buddsoddi £90 miliwn yn ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf; hyd yn hyn mae 137 o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf wedi cael eu sefydlu yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r partneriaethau hyn yn dwyn ynghyd aelodau'r cymunedau a darparwyr gwasanaethau a'r sector busnes/gwirfoddol i fynd i'r afael ag effeithiau amddifadedd.

Datblygwyd a lansiwyd rhaglen newydd gwerth £9 miliwn gennym a elwir yn *Cymunedau@Ei Gilydd*. Mae *Cymunedau@Ei Gilydd* yn fenter cynhwysiant digidol tair blynedd sydd wedi ei llunio i annog unigolion o fewn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru i ymgysylltu â thechnoleg, fel y gallant gael mynediad i'r un wybodaeth a buddion a gweddill y gymdeithas. Mae Broceriaid Cymunedol yn gweithio gyda sefydliadau cymunedol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i'w helpu i nodi eu hanghenion digidol a'u diwallu a chael mynediad i gronfa grant o £4.5 miliwn.

Yn ystod 2005-06 ymrwymwyd £6.327 miliwn gennym i 44 o brosiectau fel rhan o'r *Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol*. Nod y rhaglen hon yw helpu sefydliadau cymunedol neu wirfoddol i ddarparu cyfleusterau neu i gynnal gweithgareddau a fydd yn helpu i adfywio cymunedau.

Mae ein *Cronfa Adfywio Ffisegol* yn ystod 2005-06 wedi darparu cyllid o £13.1 miliwn ar gyfer 15 o brosiectau cyfalaf a bron i £1.2 miliwn ar gyfer 15 o brosiectau datblygu. Mae'r rhain wedi galluogi awdurdodau lleol, ar ran cymunedau, i gynnal amrywiaeth o welliannau i'w hardaloedd lleol, ac maent wedi cynnwys gwelliannau amgylcheddol a darparu cyfleusterau chwaraeon cymunedol.

Ar gyfer 2006-07 rydym yn buddsoddi £4.21 miliwn mewn gwasanaethau gofal a

thrwsio yng Nghymru. Bydd hyn yn darparu cymorth refeniw i *Gofal a Thrwsio Cymru* a 22 o asiantaethau ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru i helpu pobl hŷn a phobl anabl i wneud gwelliannau i'w cartrefi.

Cyhoeddwyd £10 miliwn yn ychwanegol gennym yn ddiweddar dros y ddwy flynedd ariannol nesaf ar gyfer y *Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref* er mwyn cynorthwyo pensiynwyr i gadw'n gynnes a gostwng eu biliau tanwydd, gan helpu gyda phethau fel gwres canolog ac insiwleiddio'r atig a waliau dwbl. Mae ein *Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref* wedi cynorthwyo 61,000 o gartrefi yng Nghymru ers i Lywodraeth y Cynulliad gymryd cyfrifoldeb dros y Cynllun yn y flwyddyn 2000.

Bydd pensiynwyr sy'n symud i fyny ddau fand ar eu treth Gyngor yn dilyn y broses ailfandio yn gymwys i gael taliad o £100. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn cynllun i annog pobl i hawlio budd-daliadau i sicrhau y bydd yr holl bensiynwr cymwys yn hawlio'r budd-daliadau y maent yn gymwys i'w hawlio i'w helpu i dalu eu biliau treth gyngor. Gallai'r budd-daliadau hyn fod yn werth hyd at £600 y flwyddyn.

Rydym wedi cynyddu'r gwariant yn sylweddol ar brosiectau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol ledled Cymru, gyda dros 4,500 o leoedd triniaeth ychwanegol yn cael eu creu yn ystod y tair blynedd diwethaf. Cafwyd cynnydd o 600 y cant mewn adnoddau rhwng 2002-03 a 2007-08.

Rydym wedi sicrhau bod arian ychwanegol o bron i £1 filiwn ar gael i awdurdodau lleol a'u partneriaid i fynd i'r afael â digartrefedd, gan olygu bod ein buddsoddiad blynyddol yn y maes hwn dros £6.3 miliwn.

Rydym wedi cynyddu lefel cyllid ar gyfer *Cefnogi Pobl* i £129 miliwn eleni o ddechreubwynt o £42 miliwn pan gafodd ei gyflwyno gyntaf. Mae'r rhaglen *Cefnogi Pobl* yn darparu cymorth sy'n ymwneud â llety ar gyfer pobl ddiamddiffyn er mwyn eu cynorthwyo i ddatblygu neu i gynnal y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i sicrhau eu hawl i fyw yn eu cartref. Mae'n atal amrywiaeth o bobl ddiamddiffyn, megis y rhai sy'n dianc rhag trais yn y cartref, camddefnyddwyr sylweddau, y rhai sy'n gadael gofal, pobl hŷn a'r rhai sy'n dioddef salwch meddwl rhag dod yn ddigartref neu rhag gorfod symud i ddarpariaeth sefydliadol.

Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau yn *Cymru: Gwlad Well*:

| **Ymrwymiad** | **Cynnydd** |
|---|---|
| Camau cadarn yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol | Mae Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sydd wedi ei hyfforddi'n llawn ym mhob un o'r 22 o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Sefydlwyd protocolau ar gyfer cofnodi digwyddiadau a mynd i'r afael â hwy gan gynnwys mesurau ataliol i gyfyngu ar yr ymddygiad niwsans yn y mwyafrif o achosion a sicrhau mai |

| Ymrwymiad | Cynnydd |
|---|---|
| | dim ond pan fetho popeth arall y defnyddir gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru. Bydd pedair Ardal Gweithredu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol beilot a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad yn cael eu cynnal a chânt eu gwerthuso i nodi arfer gorau. |
| Datblygu Cymunedau yn Gyntaf | Darperir cymorth parhaus i Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a rhoddir arian i gefnogi gweithgareddau perthnasol. |
| Cefnogi gwasanaethau cyhoeddus o safon uwch yn ardaloedd tlotaf Cymru | Dosbarthwyd Grantiau Amddifadedd yn llawn ar 1 Ebrill 2005. |
| Cynllun trwyddedu newydd ar gyfer llety ar rent | Bwriedir cychwyn y mwyafrif o'r Offerynnau Statudol yng Nghymru ym mis Mehefin a Gorffennaf 2006. Mae eraill wedi eu hamserlennu ar gyfer hydref 2006. |
| Bwriedir dynodi ardaloedd newydd lle ceir pwysau am dai lle y gellir atal yr hawl i brynu | Parhau i chwilio am slot deddfwriaeth sylfaenol, sydd bellach yn debygol o gael ei gyflwyno yng nghyd-destun Mesur Llywodraeth Cymru unwaith y bydd wedi ei gwblhau. |

Ein Cynlluniau

Rydym am i gymunedau ffynnu, felly rydym yn ariannu mwy o raglenni i annog pobl i gymryd mwy o ran uniongyrchol yn eu cymunedau. Bydd ein cefnogaeth i'r Sector Gwirfoddol a'r *Gronfa Datblygu Cymunedau Difreintiedig* newydd yn helpu i roi cyfle i bobl wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau.

Rydym wedi sicrhau £41 miliwn, ar gyfer 2006-08, i ariannu 11 o gynlluniau *Gofal Ychwanegol* gyda 467 o unedau tai ar gyfer pobl hŷn. Mae cynlluniau *Gofal Ychwanegol* yn darparu fflat hunan-gynhwysol ar gyfer pob preswylydd ac mae ystod o gyfleusterau ar bob safle sy'n rhoi cymaint o annibyniaeth â phosibl gyda'r sicrwydd bod cymorth ar gael gerllaw os bydd ei angen. Maent yn galluogi pobl i aros yn eu cartref eu hunain cyhyd â phosibl a chael lefelau cynyddol o gymorth gyda nodweddion megis cymorth i ymolchi a phrydau poeth.

Yn 2006-07, nod ein *Grantiau Tai Cymdeithasol* fydd darparu 1000 o dai ychwanegol i'w rhentu neu i'w prynu am gost isel, a thua 220 o fflatiau Gofal Ychwanegol ar gyfer pobl hŷn. Bydd ein *Cynlluniau Gwella'r Cartref* yn parhau i alluogi pobl hŷn a phobl anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Erbyn 2008 rydym hefyd yn anelu at ostwng nifer y bobl ddigartref 20 y cant ac atal digartrefedd mewn 50 y cant o achosion.

Gall problemau sy'n deillio o gamddefnyddio sylweddau gael sgîl-effaith anferth ar gymdogion ac ansawdd eu bywyd. Rydym yn gwneud newidiadau i'r ffordd

rydym yn ymdrin â phroblemau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, ac rydym yn cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer triniaethau. Byddwn yn rhoi cymorth i 250 o unedau camddefnyddio sylweddau/troseddwyr ifanc drwy'r cynllun *Grant Refeniw Tai â Chymorth* sydd ar waith gennym. Byddwn hefyd yn darparu cyllid ar gyfer 544 o brosiectau *Cefnogi Pobl*, a fydd yn darparu 6,843 uned o gymorth drwy gydol 2006-07.

Er mwyn sicrhau y caiff ein plant a'n pobl ifanc y dechrau gorau mewn bywyd, byddwn yn datblygu camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â thlodi plant, a byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ledled y DU ar raglenni i helpu i rwystro troseddwyr ifanc rhag aildroseddu.

---

## Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Ein Cyflawniadau

Rydym yn ymrwymedig i greu amgylchedd cynaliadwy ar gyfer pobl Cymru a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'n ganolog i'n hiechyd, ein heconomi a'n hansawdd bywyd, ond ceir tystiolaeth gynyddol bod ein gweithredoedd yn gwthio systemau naturiol y tu hwnt i'w gallu i ymdopi. Mae ein *Strategaeth Amgylcheddol* a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn darparu'r fframwaith sydd ei angen arnom i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru.

Rydym wedi darparu cyfanswm o £93 miliwn o grant rheoli gwastraff cynaliadwy i awdurdodau lleol dros y tair blynedd 2004-05 i 2007-08. Nid dim ond ymdrin â'r problemau a gaiff eu hachosi gan wastraff a wna, ond mae'n ymdrin hefyd â gostwng y swm o wastraff a gaiff ei gynhyrchu gennym yn y lle cyntaf, a symud oddi wrth waredu gwastraff drwy dirlenwi. Bydd y rhain yn negeseuon allweddol ar gyfer ein hymgyrch barhaus *Cynllun Craff am Wastraff*.

Cafwyd cynnydd anferth yn y swm o wastraff trefol a gaiff ei ailgylchu. Ar gyfartaledd, cafwyd cynnydd o dros 19 y cant yn nefnydd awdurdodau lleol o wasanaethau ailgylchu a chompostio trefol yn 2004-05, ac mae pedwar awdurdod lleol (Caerffili, Ceredigion, Casnewydd a Phowys) eisoes wedi rhagori ar y targed o 25 y cant ar gyfer 2006-07.

Rydym wedi datblygu ymagwedd newydd tuag at weithredu amaeth-amgylcheddol gan gynnwys cyflwyno cynllun newydd o'r enw *Tir Cynnal*. Rhaid i ffermwyr sy'n ymuno â'r cynllun 10-mlynedd hwn ddiogelu ardaloedd a nodweddion amgylcheddol pwysig ar eu tir. Yn 2005, cawsom dros 5,100 o geisiadau.

Gwnaed gwaith i ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin i adlewyrchu anghenion Cymru a ffermio yng Nghymru - Cymru oedd y rhan gyntaf o'r DU i lwyddo i dalu

elfen sylweddol o'r Taliad Sengl i'n ffermwyr. Mae'r PAC ar ei ffurf newydd, sy'n werth tua £230 miliwn i'r gymuned ffermio yng Nghymru, yn rhoi'r hyblygrwydd i ffermwyr anelu cynhyrchiant tua'r farchnad. Mae'r mesurau eraill yn cynnwys y strategaeth bwyd-amaeth a chymorth gyda phrosesu, marchnata a datblygu cynnyrch.

Yn dilyn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid a phartneriaid, cyhoeddwyd *cynllun wrth gefn Clefydau Anifeiliaid Ecsotig Cymru* sy'n cwmpasu nifer o glefydau anifeiliaid, gan gynnwys ffliw adar a chlwy'r traed a'r genau. Mae'r cynllun yn amlinellu'r modd y byddwn yn ymdrin ag unrhyw achosion o glefydau yng Nghymru, ac mae'n ategu cynllun y DU sy'n amlinellu'r systemau, y strwythurau, y dulliau cyfathrebu a'r prosesau o wneud penderfyniadau yng Nghymru. Mae TB mewn gwartheg yn achosi pryder arbennig i ffermwyr yng Nghymru ac ym mis Rhagfyr 2005 cyhoeddasom ein bwriad i gyflwyno pecyn o fesurau i helpu i reoli'r clefyd. Rydym eisoes wedi cyflwyno arolwg o foch daear a ganfuwyd yn farw yng Nghymru, a gofyniad i brofi gwartheg cyn eu symud.

Cynnydd yn erbyn ymrwymiadau *Cymru: Gwlad Well*:

| **Ymrwymiad** | **Cynnydd** |
|---|---|
| Cynyddu lefelau ailgylchu i 25 y cant | Cyflawnodd awdurdodau lleol ledled Cymru darged ailgylchu a chompostio cyfun o 19.4 y cant yn 2004-05, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer. Erbyn y dyddiad hwnnw, roedd dau awdurdod lleol wedi ailgylchu a chompostio dros 25 y cant o'u gwastraff: Casnewydd a Chaerffili ac roedd dau wedi ailgylchu a chompostio dros 30 y cant o'u gwastraff: Ceredigion a Phowys. |
| Ymestyn mynediad agored i ardaloedd arfordirol ar ôl i'r mynediad agored i gefn gwlad agored gael ei sefydlu | Cyflwynodd y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy hawliau mynediad newydd ledled Cymru ym mis Mai 2005. Bellach gellir cerdded ar hyn 22 y cant o dir Cymru - cynnydd triphlyg yn y tir a oedd ar gael i'r cyhoedd.<br><br>Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i gynyddu mynediad i'r arfordir. |
| Helpu diwydiant bwyd-amaeth Cymru i ennill cyfran fwy o'r farchnad bwyd safonol | Lansiwyd y rhaglen *Going for Growth* yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn 2005 a'r nod yw cynorthwyo cwmnïau i ddatblygu mewn marchnadoedd newydd gartref ac yn rhyngwladol.<br>• Cynyddwyd y swm o allforion bwyd arbenigol i UDA o ganlyniad i fynychu'r Ffair Fwyd Arbenigol yn Efrog Newydd.<br>• Mae Harrods wedi derbyn ugain o Gyflenwyr Cymreig fel rhan o'u rhaglen hysbysrwydd |

| Ymrwymiad | Cynnydd |
|---|---|
| | Truly British.<br>• Arddangosodd bump o gwmnïau o Gymru yng Ngŵyl Fwyd Anuga.<br>• Mae'r gwaith o ddatblygu marchnadoedd newydd ar gyfer cynnyrch o Gymru yn mynd rhagddo yn dda, megis allforio Cig Oen Cymru i Dubai. |
| Datblygu hyfforddiant sgiliau sy'n addas i sefyllfaoedd gwledig | Mae dros 4,800 o deuluoedd amaethyddol wedi cael Gwiriad Sgiliau ac mae 2,400 ohonynt wedi dewis cael hyfforddiant o ganlyniad i hynny. Mae 572 o ffermwyr wedi manteisio ar yr hyfforddiant TGCh a gaiff ei ddarparu drwy'r cynllun *Cyswllt Ffermio*. Yn ogystal, mae *Canolfannau Datblygu Cyswllt Ffermio* yn trefnu digwyddiadau a seminarau sy'n seiliedig ar dechnoleg a throsglwyddo arfer gorau. Mae 8,000 o ffermwyr bellach wedi mynychu digwyddiadau *Canolfannau Datblygu*. Cynhaliwyd gwerthusiad o *Cyswllt Ffermio* i nodi sut y gellir gwella ymhellach ar y gwasanaeth a ddarperir. |
| Annog ysgolion ac ysbytai i brynu mwy o gynnyrch Cymreig | Caiff cig eidion o Gymru bellach ei gyflenwi i'r mwyafrif o ysbytai Cymru ac rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gael mwy o gynnyrch lleol Cymreig mewn ysgolion.<br><br>Rydym yn cynnal adolygiad o Gaffael Cyhoeddus yng Nghymru, ac rydym wedi sefydlu cronfa ddata o 508 o gwmnïau yng Nghymru a all gyflenwi cynnyrch lleol mewn sectorau allweddol. |
| Asesiadau iechyd cyhoeddus mwy llym ar gyfer datblygiadau newydd | Caiff argymhellion adroddiad ymchwil ar asesiadau iechyd cyhoeddus ar gyfer datblygiadau newydd eu hadolygu ar hyn o bryd. Ein nod yw ymgynghori ar bolisi cynllunio drafft newydd yn ystod 2006. |

<u>Ein Cynlluniau</u>

Mae *Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol* yn cynnwys 62 o fesurau sy'n canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwella ansawdd amgylcheddol lleol.

Mae mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn dod yn un o'r blaenoriaethau uchaf i bawb. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn nodi meysydd penodol o fewn ein gwaith a'n cyfrifoldeb lle y gallwn ddylanwadu'n uniongyrchol a gosod targedau ar gyfer gostwng lefelau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Byddwn hefyd yn ystyried sut y

gall y gwaith o gynllunio defnydd tir helpu i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Byddwn yn datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru.

Rydym yn buddsoddi adnoddau ychwanegol i wella ansawdd amgylcheddol lleol. Bydd hyn yn cynnwys mesurau i fynd i'r afael â sbwriel a baw cŵn, tipio anghyfreithlon, ceir sydd wedi'u gadael, graffiti a llygredd yn ymwneud â sŵn. Byddwn yn anelu at gael pob awdurdod lleol i gymryd rhan yn y Cynllun *Gwobrau'r Faner Werdd* erbyn diwedd 2008.

Mae ein rhaglen *Eco-Ysgolion* yn cynnig fframwaith delfrydol ar gyfer datblygu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy o fewn ysgolion. Ceir wyth maes testun, sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm a chamau gweithredu ymarferol, a gall ysgolion sy'n dangos ymrwymiad i wella eu perfformiad amgylcheddol fod yn gymwys i ennill gwobr glodfawr *Eco-Ysgolion* Rydym yn buddsoddi £100,000 yn ychwanegol i helpu mwy o *Eco-Ysgolion* i ennill statws Y Faner Werdd.

Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth i'n cymunedau gwledig drwy ein rhaglen cymorth grant a thrwy'r fenter *Cyswllt Ffermio.* Rydym hefyd yn parhau i gynorthwyo ein hamgylchedd drwy ein cynlluniau cynaliadwyedd. Erbyn y flwyddyn nesaf, bydd 60 y cant o dir amaethyddol yng Nghymru yn rhan o gynllun amaeth-amgylchedd a fydd yn helpu i sicrhau ei fod yn aros mewn cyflwr da at ddefnydd amaethyddol ac amgylcheddol. Rydym am sicrhau y caiff holl goetiroedd y Cynulliad eu rheoli'n gynaliadwy a'r nod yw cynyddu'r cyfanswm o dir amaethyddol Cymru sy'n Organig i 10-15 y cant erbyn 2010.

---

## Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Ein Cyflawniadau

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar annog pawb i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, fel rhan o'n ffocws traws-lywodraethol ar annog pobl i fyw bywydau iachach. Ein rhaglen beilot *Nofio am Ddim* yw'r fenter genedlaethol gyntaf o'i bath yn Ewrop. Yn 2005, llwyddodd y rhaglen nofio am ddim i ddyblu nifer y plant 16 oed ac iau sy'n mynd i nofio yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae 20 y cant o'r rhai sy'n cymryd rhan yn *Nofio am Ddim 60+* yn nofwyr newydd.

Rydym yn buddsoddi bron i £4 miliwn yng *Nghynllun Hyfforddi Cymru* i gynorthwyo wrth ddatblygu sgiliau a gyrfaoedd dros 5,000 o hyfforddwyr ac arweinwyr y flwyddyn. Rydym am wella ansawdd a nifer ein hyfforddwyr.

Gwnaed cynnydd aruthrol eleni wrth gael 70 y cant o ferched mewn ysgolion

uwchradd i gymryd rhan mewn chwaraeon ar ôl ysgol - gan gau'r bwlch rhwng merched a bechgyn sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon i ddim ond pump y cant.

*Cymraeg i Oedolion* yw un o'r rhaglenni addysg i oedolion mwyaf yng Nghymru ac mae mwy o gwmnïau blaenllaw yn cynnig gwasanaeth dwyieithog. Mae ein buddsoddiad uchel yn yr iaith wedi cyflwyno llawer mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac mae digwyddiadau a sefydliadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Urdd a'r Mentrau Iaith yn parhau i ffynnu gyda chymorth ariannol gan y Llywodraeth.

Agorodd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe ym mis Hydref 2005. Cafwyd cydnabyddiaeth o'i phwysigrwydd pan oedd yn ddim ond un o 10 o amgueddfeydd o'r DU i gael ei chynnwys ar y rhestr hir ar gyfer Gwobr glodfawr Gulbenkian 2006, sef y wobr gelfyddydol fwyaf yn y DU, a enillwyd gan un o'n hamgueddfeydd pwysig eraill yn 2005, sef y Pwll Mawr.

Mae'r gwasanaethau gwell mewn llyfrgelloedd hefyd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn niferoedd yr ymwelwyr, ac ymwelodd dros filiwn o bobl â'n cestyll a'n henebion.

Parhawyd i fuddsoddi yn y Celfyddydau ac agorwyd lleoliadau celfyddydol newydd gwych ledled Cymru yn 2005, o'r Galeri yng Nghaernarfon i Ganolfan Glanyrafon yng Nghasnewydd. Mae Canolfan Mileniwm Cymru (y Ganolfan) yn ganolfan newydd sy'n ymsefydlu ei hun ar lefel ryngwladol, a chafodd 344,000 o bobl gyfle i fwynhau opera, sioeau cerdd, bale a gwaith theatraidd yn y Ganolfan yn ystod 2005. Mae mwy a mwy o bobl hefyd yn mwynhau perfformiadau yn eu cymunedau lleol drwy'r cynllun *Noson Allan* neu ymweliad gan theatr symudol Clwyd Theatr Cymru. Ymwelodd dros un filiwn o bobl ag arddangosfeydd celf y llynedd.

Cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau yn *Cymru: Gwlad Well*

| **Ymrwymiad** | **Cynnydd** |
|---|---|
| Y buddsoddiad mwyaf erioed yn yr iaith Gymraeg | Rydym wedi buddsoddi £28 miliwn yn ychwanegol mewn cymorth uniongyrchol i'r iaith Gymraeg ar gyfer 2003-06, gan greu mwy o gyfleoedd a gwell cyfleoedd i bobl ddysgu Cymraeg. |
| Datblygu gwasanaethau llyfrgell | Ledled Cymru dros y 3 blynedd diwethaf cafwyd cynnydd o 15 y cant yn nifer yr ymwelwyr, cynnydd o 45 y cant mewn gwariant ar ddeunyddiau llyfrgell a gwelliant o 84 y cant yn y ddarpariaeth o adnoddau a gwasanaethau TGCh. |
| Archwilio'r potensial ar gyfer Oriel Genedlaethol newydd | Mae adroddiadau terfynol ar y ddau gynnig hyn wedi cael eu cyflwyno i gael eu hystyried gan y |

| Ymrwymiad | Cynnydd |
|---|---|
| ar gyfer Celf o Gymru ac Oriel Ddigidol Genedlaethol ar gyfer Celf Weledol. | Gweinidog. |
| Denu prif ddigwyddiadau chwaraeon a diwylliannol. | Ym mis Awst 2005, llwyddwyd i sicrhau Grand Prix Cymru, Casnewydd - y tro cyntaf i Ras Feicio Cwpan y Byd i fenywod gael ei chynnal yn y DU.<br><br>Gwnaethom gais llwyddiannus i gynnal Rownd Derfynol Cwpan Heineken yng Nghaerdydd ym mis Mai 2006.<br><br>Yn ogystal, cynaliasom Rownd Derfynol Cwpan yr Faa'r gemau ail gyfle yng Nghaerdydd, a rhoesom help i sicrhau dyfodol Gŵyl y Faenol ym Mangor. |

Ein Cynlluniau

Rydym wrthi'n ymgynghori ar hyn o bryd ar ein cynigion ar gyfer uno Bwrdd yr Iaith Gymraeg â Llywodraeth y Cynulliad. Bydd hyn yn gwella atebolrwydd democrataidd ac yn ein helpu i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, syml o'r radd flaenaf ac o well ansawdd i bobl Cymru.

Erbyn diwedd 2006, byddwn wedi cwblhau adolygiad o Gyngor Celfyddydau Cymru, a fydd yn ein helpu i wneud penderfyniadau pwysig am y modd y caiff y celfyddydau yng Nghymru eu hariannu.

Ein nod yw cynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol gyda'r nod o gael 100,000 o blant i ymuno â chlybiau ysgol erbyn mis Mawrth 2007, ac 20,000 o oedolion i gymryd rhan mewn cyfleoedd cyfranogi newydd i oedolion erbyn mis Mawrth 2008. Caiff ein cynllun gweithredu ei gyhoeddi cyn bo hir.

**Cabinet y Cynulliad**

| | |
|---|---|
| Prif Weinidog Cymru | Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC |
| Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | Sue Essex AC |
| Y Trefnydd a'r Gweinidog dros Gydraddoldebau a Phlant | Jane Hutt AC |
| Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio | Edwina Hart MBE AC |
| Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Brian Gibbons AC |
| Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau | Andrew Davies AC |
| Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | Jane Davidson AC |
| Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad | Carwyn Jones AC |
| Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon | Alun Pugh AC |

**Dirprwy Weinidogion**

| | |
|---|---|
| Y Dirprwy Weinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau a'r Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. | Tamsin Dunwoody AC |
| Y Dirprwy Weinidog sydd â chyfrifoldeb dros bobl hŷn. | John Griffiths AC |
| Y Dirprwy Weinidog sydd â chyfrifoldeb dros gymunedau | Huw Lewis AC |
| Y Dirprwy Weinidog dros Lwybrau Dysgu 14-19 a Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. | Christine Chapman AC |